# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Cynhadledd fideo drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 20 Chwefror 2024

Amser: 09.00 - 09.28

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS<br>Elin Jones AS, Llywydd |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Llinos Madeley, Clerc - Gweithdrefnau a Sgiliau Seneddol<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Yn unol â Rheol Sefydlog 6.18, ar gais y Llywydd, cafodd y cyfarfod ei gadeirio gan y Dirprwy Lywydd.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newid a ganlyn:

- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Mesurau Arbennig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - flwyddyn yn ddiweddarach (45 munud)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm

Dywedodd y Dirprwy Lywydd wrth y Rheolwyr Busnes y bydd Pwyllgor y Senedd Gyfan yn ymgynnull am gyfarfod byr, yn syth ar ôl y Cyfarfod Llawn, i ystyried cynnig i gytuno ar y Drefn Ystyried ar gyfer trafodion Cyfnod 2 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 27 Chwefror 2024**

- ~~Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Mesurau Arbennig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – flwyddyn yn ddiweddarach (45 munud)~~ *symudwyd ymlaen i 20 Chwefror*
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol: Y Cynllun Gweithredu LHDTC+ (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Ymateb Llywodraeth Cymru i Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru (30 munud)

Gofynnodd Heledd Fychan am ddatganiad llafar ar fuddsoddi mewn addysg a hyfforddi gweithwyr proffesiynol gofal iechyd, yn dilyn y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 14 Chwefror. Dywedodd y Trefnydd y byddai'r Llywodraeth yn ystyried y cais.

Gofynnodd Darren Millar am ddatganiad llafar ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Dywedodd y Trefnydd na fyddai datganiad llafar yn cael ei drefnu nes bod ymgynghoriad ar y Cynllun wedi cau ar 7 Mawrth, ac y dylai'r Aelodau annog unrhyw un sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r Cynllun wedi'i ddylunio achub ar y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad.

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau a ganlyn i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 13 Mawrth 2024 –**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Adfywio Canol Trefi (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer: Hefin David (Caerffili) (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Ymateb gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ynghylch yr amserlenni ar gyfer y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru).

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar amserlenni diwygiedig ar gyfer craffu ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru).

### 4.2 Nodyn ar rôl y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Nododd y Pwyllgor y papur.

### 4.3 Nodyn ar y broses ar gyfer penodi Cwnsler Cyffredinol

Nododd y Pwyllgor y papur.

### 4.4 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Cafodd y Pwyllgor Busnes ddiweddariad ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol cyfredol a chytunodd i:

- gyfeirio’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig a osodwyd ar 13 Chwefror 2024 i’r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad graffu arno, gyda dyddiad terfynol o 19 Ebrill 2024 i gyflwyno adroddiad.
- diwygio'r cyfnod adrodd ar gyfer memoranda a osodir mewn perthynas â'r Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel), gyda dyddiad terfynol newydd o 8 Mawrth 2024 i gyflwyno adroddiad;
- diwygio'r cyfnod adrodd ar gyfer memoranda a osodir mewn perthynas â'r Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw), gyda dyddiad terfynol newydd o 8 Mawrth 2024 i gyflwyno adroddiad.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn gwneud cais am estyniad i'w cyfarfod ar 26 Chwefror

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y cais i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol gwrdd yn gynharach ar 26 Chwefror.

## 6 Gwaith Gweithdrefnol

### 6.1 Rhannu Swydd Cadeirydd Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur ar Rannu Swydd Cadeirydd Pwyllgor a chytunodd i gynnal trafodaeth bellach yn y cyfarfod nesaf, yn dilyn trafodaethau gyda grwpiau pleidiau.